

DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN CYNGOR GWYNEDD

Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod bod cyfrifoldeb arno fel cyflogwr i fod yn ymwybodol o'r potensial ar gyfer achosion o gaethwasiaeth fodern ac i adrodd ar achosion o'r fath i'r cyrff perthnasol.

Mae'n ymddangos fod achosion o gaethwasiaeth fodern yng Nghymru yn cynyddu wrth i ymwybyddiaeth ehangu, gyda 123 o gyfeiriadau yn cael ei gwneud yn 2016.

Gall caethwasiaeth fodern fod ar unrhyw un o'r ffurfiau a ganlyn:-

- Puteindra gorfodol
- Masnachu plant
- Camfanteisio troseddol
- Caethwasiaeth domestig
- Llafur gorfodol
- Gwerthu organau
- Camfanteisio'n rhywiol

Lle bo'n briodol, bydd y Cyngor, fel rhan o'i broses dendro / gontractio, yn gofyn am sicrwydd gan gyflenwyr a darpar gyflenwyr nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth am unrhyw un o'r ffurfiau uchod o gaethwasiaeth fodern o fewn eu sefydliadau neu gadwyni cyflenwi. Bydd y Cyngor yn disgwyl i'r cyflenwyr hynny gymryd cyfrifoldeb i gael sicrwydd tebyg gan eu cadwyni cyflenwi eu hunain.

Yn ogystal, bydd y Cyngor yn sicrhau bod staff sy'n ymwneud â chaffael a/neu recriwtio yn ymgymryd â hyfforddiant perthnasol modiwl e-ddysgu Llywodraeth Cymru.

Ym mis Gorffennaf 2018, hefyd, cymeradwyodd Cabinet y Cyngor Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi sydd yn anelu at sicrhau bod pob sefydliad yn y sector cyhoeddus yn gweithredu i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol.

Mae gan y cyhoedd a staff yr un cyfrifoldeb i fod yn effro i achosion posibl o gaethwasiaeth fodern neu fusnesau sy'n defnyddio llafur gorfodol. Os oes gennych unrhyw bryderon o'r fath, cysylltwch ag unrhyw un o'r cyrff a ganlyn :-

Heddlu Gogledd Cymru	:	Cysylltu â 101 (neu 999 mewn Argyfwng)
Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern:		Cysylltu â 0800 0121700
Crimestoppers	:	Cysylltu â 0800 555 111
Uwch Reolwr Tai a Llesiant	:	Cysylltu â 01766 771000
Cyswllt Corfforaethol ar faterion Caethwasiaeth Fodern		

Yn ystod y cyfnod Mawrth 2017 hyd at fis Mawrth 2018, derbyniwyd 3 achos mewn perthynas â Chaethwasiaeth fodern posibl / masnachu pobl yng Ngwynedd. Aeth y rhain at y Panel Diogelu Strategol a'u cyfeirio at y cyrff perthnasol i'w harchwilio ymhellach.